


# Adroddiad Blynyddol 2011–12

## Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Gorffennaf 2012

## Y Bwrdd Taliadau

**Y Gwir Anrhydeddus Syr George Reid (Cadeirydd)**
**Sandy Blair CBE**
**Mary Carter**
**Stuart Castledine**
**Yr Athro Monojit Chatterji**

Mae bywgraffiadau Aelodau'r Bwrdd ar gael yn Atodiad A.

## Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

**Carys Eyton Evans**, Clerc
**Helen Finlayson**, Dirprwy Glerc (Ebrill 2011-Chwefror 2012)
**Dafydd Kidd,** Dirprwy Glerc (Mawrth 2012)
**Annette Stafford**, Cymorth Tîm (tan fis Ionawr 2012)

Gellir gweld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org
Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn hefyd ar ffurfiau hygyrch yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain neu gopïau caled gan:

Clerc y Bwrdd Taliadau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8598
Ffacs: 029 2089 8117
E-bost: Remuneration@cymru.gov.uk

# Cynnwys

Cyflwyniad ..... 5

Pennod 1: Y Bwrdd Taliadau ..... 7

Pennod 2: Addas i'r Diben ..... 11

Pennod 3: Taliadau Deiliaid Swyddi ..... 13

Pennod 4: Trefniadau Pensiwn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ..... 15

Pennod 5: Adolygu ein Penderfyniadau ..... 17

Pennod 6: Rhaglen Waith 2012-13 ..... 23

Atodiad A: Cylch Gwaith ac Aelodaeth y Bwrdd Taliadau ..... 25

Atodiad B: Dadansoddiad o Gostau'r Bwrdd ..... 27

# Cyflwyniad

Mandad Bwrdd Taliadau Annibynnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw penderfynu ar daliadau a lwfansau Aelodau a'u staff. Mae'n ofynnol i ni sicrhau cywirdeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder yn y maes ariannol hwn. Mae'n rhaid i ni, hefyd, benderfynu ar lefel deg o daliad ar gyfer yr Aelodau, sy'n adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd eu swyddogaethau, a rhoi digon o adnoddau iddynt ymgymryd â'u dyletswyddau.

Roedd ein Penderfyniad cyntaf ym mis Mawrth 2011 yn sefydlu system gadarn o gymorth ariannol i Aelodau a'u staff. Roedd ein hail Benderfyniad ym mis Gorffennaf 2012 yn nodi egwyddorion clir ar gyfer taliadau atodol i ddeiliaid swyddi.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn (rhwng mis Ebrill 2011 a diwedd mis Mawrth 2012) cyfarfu'r Bwrdd yn ffurfiol ar saith achlysur. Rhwng cyfarfodydd, mae aelodau'r Bwrdd wedi ymgynghori ar y ffôn a thrwy e-bost ac maent wedi cynnal amrywiaeth o waith ymchwil o fewn eu cymwyseddau proffesiynol unigol. Fel Cadeirydd, rwyf wedi cysylltu â'r Llywydd ac arweinwyr y pleidiau yn rheolaidd ac wedi cwrdd ag Aelodau sydd am drafod unrhyw faterion.

Mae tri phrif beth yn llywio ein gwaith ar hyn o bryd. Rydym wrthi'n adolygu lwfans staffio'r Aelodau a byddwn yn gwneud penderfyniad erbyn mis Ebrill 2013. Rydym yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad ac adolygiad trylwyr ac ymgynghoriad ynghylch pensiynau'r Aelodau a byddwn yn gwneud Penderfyniad erbyn mis Mawrth 2014, cyn symud ymlaen i ystyried taliadau llawn ar gyfer y Pumed Cynulliad, gan wneud Penderfyniad yn 2015. Yn rheolaidd, hefyd, rydym yn ystyried achosion lle mae'r Aelodau yn teimlo bod angen adolygu'r trefniadau presennol . Mae ein penderfyniadau o dan achosion o'r fath i'w gweld ym Mhennod 5 o'r adroddiad hwn.

Rydym yn croesawu'r buddsoddiad yn natblygiad proffesiynol yr Aelodau ers dechrau'r Pedwerydd Cynulliad ac ymateb cadarnhaol Aelodau a'u staff i hyn. Rydym yn falch, hefyd, fod gwybodaeth yn llifo'n well rhwng Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad, sy'n galluogi'r Aelodau i gael mynediad rhwydd at wybodaeth ffeithiol sydd gan Lywodraeth Cymru. Gobeithio y bydd yr Aelodau yn manteisio mwy yn y dyfodol ar yr hyblygrwydd sydd ar gael iddynt o ran gwneud rhagor o ddefnydd o arbenigwyr i'w cynorthwyo i wneud eu gwaith yn ôl yr angen.



**Y Gwir Anrhydeddus Syr George Reid**
**Cadeirydd y Bwrdd Taliadau**
**Gorffennaf 2012**

# Y Bwrdd Taliadau

*Mae'r bennod hon yn nodi swyddogaethau a chylch gwaith y Bwrdd.*

## Sefydlu a Phenodi

**1.** Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu taliadau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Sefydlwyd y Bwrdd *gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010* (y Mesur), a gafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 22 Gorffennaf 2010.

**2.** Penodwyd y Bwrdd drwy weithdrefn penodiadau cyhoeddus dryloyw yn ystod haf 2010. Gellir gweld bywgraffiadau holl aelodau'r Bwrdd yn Atodiad A. Cafodd aelodau'r Bwrdd Taliadau eu penodi am gyfnod penodol o bum mlynedd, ac ni allant sefyll am fwy na dau dymor.

**3.** Cymeradwyodd Comisiwn y Cynulliad y penodiadau'n ffurfiol ar 21 Medi 2010, a chynhaliodd y Bwrdd ei gyfarfod cyntaf ar 1 Hydref 2010.

## Swyddogaethau ac Amcanion

**4.** Ein swyddogaethau, fel y nodir yn adran 3 o'r Mesur, yw pennu lefel y taliadau a system o roi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad i'w galluogi i gyflawni'u swyddogaethau.

**5.** Mae'r Mesur yn nodi tri amcan allweddol y mae'n rhaid i ni geisio'u cyflawni wrth wneud Penderfyniad, sef:

- darparu lefel taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, sy'n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni, ac nad yw, ar sail ariannol yn atal personau rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad am resymau ariannol;
- darparu adnoddau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad sy'n ddigonol i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau; a
- sicrhau priodolder, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwariant cyllid cyhoeddus.

## Gofynion Statudol

**6.** Wrth gyflawni ein swyddogaethau, mae adran 3 o'r Mesur yn ein gorfodi i adolygu gweithrediad ein penderfyniadau a'u heffeithiolrwydd, gan roi ystyriaeth arbennig i'r profiad a gawn o weithredu'n Penderfyniad, unrhyw newidiadau yn swyddogaethau Aelodau'r Cynulliad, ac unrhyw amgylchiadau eraill y tybiwn eu bod yn berthnasol.

**7.** Er ein bod yn annibynnol ar y Cynulliad, ac nad ydym yn ddarostyngedig i'w gyfarwyddyd na'i reolaeth ef na Chomisiwn y Cynulliad, mae adran 2 o'r Mesur yn ein gorfodi, wrth arfer ein swyddogaethau, i ymgynghori â'r personau y mae'n debyg yr effeithir arnynt gan ein penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys Aelodau, staff a gyflogir gan Aelodau neu gan grwpiau o Aelodau, undebau llafur perthnasol ac unrhyw bersonau eraill y tybiwn ei bod yn briodol i ni ymgynghori â hwy.

**8.** Mae adran 2 o'r Mesur yn rhoi caniatâd i ni gyfarfod yn breifat os tybiwn fod hynny'n briodol, ond mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni weithredu mewn ffordd agored a thryloyw a chyhoeddi gwybodaeth o'r fath ar wefan y Cynulliad fel bod y cyhoedd yn ymwybodol o'n gweithgareddau. Yn ychwanegol at hynny, mae adran 11 yn ei gwneud yn ofynnol i ni osod adroddiad blynyddol o'n gweithgarwch gerbron y Cynulliad, gan gynnwys ein defnydd o adnoddau yn ystod pob blwyddyn ariannol.

**9.** Roedd adran 15 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried unrhyw argymhellion perthnasol o'r adroddiad *Yn Gywir i Gymru* o fis Gorffennaf 2009, y tro cyntaf i ni ystyried materion yn ymwneud ag unrhyw agwedd ar daliadau neu gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad.

## Egwyddorion

**10.** Cafodd ein gwaith hyd yma ei ategu gan gyfres o egwyddorion sy'n cael ei diffinio'n glir:

- dylai cymorth ariannol a thaliadau i Aelodau gefnogi diben strategol y Cynulliad a hwyluso gwaith ei Aelodau;
- mae'n rhaid i benderfyniadau fod yn briodol o fewn cyd-destun enillion yng Nghymru a'r amgylchiadau ariannol ehangach sy'n effeithio ar Gymru; ac
- mae'n rhaid i'r system o roi cymorth ariannol fod yn gynaliadwy ac mae'n rhaid iddi gynrychioli gwerth am arian i'r trethdalwr.

**11.** Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y system o roi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad yn gadarn, yn glir, yn dryloyw ac yn gynaliadwy.

## Methodoleg

**12.** Mae'r penderfyniadau a nodir yn ein Penderfyniad yn deillio o adolygiad sy'n 'addas i'r diben' ac sy'n dryloyw a chyfranogol o'r system o roi cymorth ariannol a thaliadau. Roeddent yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd gan Aelodau'r Cynulliad, eu staff, ac unigolion a sefydliadau perthnasol eraill.

**13.** Roedd y dystiolaeth a dderbyniwyd gennym yn ein galluogi i gadarnhau beth yw dibenion strategol y Cynulliad a deall y ffordd y mae Aelodau'n cyflawni'r dibenion hynny. Roeddem wedyn yn gallu datblygu system o daliadau a oedd yn targedu adnoddau i gefnogi'r dibenion hynny, gan wneud y gorau o allu strategol y Cynulliad.

**14.** Drwy gydol ein gwaith, ac yn unol ag adran 9 o'r Mesur, cafwyd cymorth clercio ac ymchwil, cyngor cyfreithiol a chyngor arall a chymorth gweinyddol gan staff Comisiwn y Cynulliad. Darparwyd y cymorth hwn fel rhan o ddyletswyddau cyffredinol staff y Comisiwn, felly nid oedd unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer y Bwrdd Taliadau.

## Ymgynghori a Chasglu Tystiolaeth

**15.** Drwy gydol ein gwaith, ac yn unol ag Adran 2 o'r Mesur, rydym wedi ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r rhai sydd wedi treulio amser yn rhoi tystiolaeth i ategu ein gwaith.

**16.** Rydym wedi ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad yn rheolaidd ers gwneud y Penderfyniad ac rydym wedi casglu adborth sydd wedi ein galluogi i werthuso effeithiolrwydd y systemau a roddwyd ar waith gennym. Byddwn yn parhau i weithredu drwy'r ffordd gyfranogol hon er mwyn sicrhau bod ein penderfyniadau yn parhau'n addas i'r diben.

# Addas i'r Diben

*Mae'r bennod hon yn amlinellu rhan gyntaf ein gwaith (Hydref 2010 - Mawrth 2011).*

## Addas i'r Diben

**17.** Gwnaethom ran gyntaf ein gwaith — sef sefydlu'r system o roi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad — rhwng mis Hydref 2010 a mis Mawrth 2011.

**18.** Cyhoeddwyd ein Penderfyniad cyntaf ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ym mis Mawrth 2011. Roedd adroddiad, *Addas i'r Diben,* yn cyd-fynd â'r Penderfyniad. Roedd yr adroddiad yn egluro ein hegwyddorion, ein methodoleg, yr ymgynghoriad a gynhaliwyd a'r gwaith ymchwil a wnaed gennym, a'n penderfyniadau ynghylch y system briodol o roi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad. Roedd hwn yn cynnwys penderfyniadau mewn perthynas â:

- chyflogau Aelodau'r Cynulliad;
- cyflogau sy'n daladwy i ddeiliaid swyddi ychwanegol;[1]
- cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys costau preswyl, swyddfa a theithio;
- staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys taliadau a recriwtio; a
- chymorth i grwpiau plaid.

**19.** Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn i'w gweld yn ein *Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2010-11*, ac a gyhoeddwyd gennym ym mis Tachwedd 2011.

[1] *Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, Cwnsler Cyffredinol a Llywyddion.*

# Taliadau Deiliaid Swyddi

*Mae'r bennod hon yn amlinellu ein gwaith ar daliadau deiliaid swyddi (Mai – Gorffennaf 2011).*

## Taliadau Deiliaid Swyddi

**20.** Yn ystod rhan gyntaf ein gwaith yn 2010-11, nid oedd gennym ddigon o dystiolaeth i wneud penderfyniadau terfynol mewn perthynas â thaliadau priodol i arweinyddion y gwrthbleidiau, rheolwyr busnes a chwipiaid, cadeiryddion pwyllgorau, a Chomisiynwyr y Cynulliad. Gwnaethom, felly, ohirio ein penderfyniadau yn y meysydd hyn tan ar ôl etholiad mis Mai 2011. Yn ogystal â rhoi'r cyfle i ni wneud rhagor o waith ymchwil a chasglu mwy o dystiolaeth am swyddogaethau a chyfrifoldebau'r amrywiol swyddi, roedd hefyd yn ein galluogi i ystyried cyfansoddiad gwleidyddol neilltuol y Pedwerydd Cynulliad, canlyniad refferendwm mis Mawrth 2011 ar ragor o bwerau deddfu i'r Cynulliad, a chyfrifoldebau tebygol cadeiryddion pwyllgorau o ganlyniad i strwythur pwyllgor mwy syml.

**21.** Cyhoeddwyd Penderfyniad wedi'i ddiweddaru ac adroddiad i gyd- fynd â'r Penderfyniad, sef *Taliadau Deiliaid Swyddi*, ym mis Gorffennaf 2011.

## Methodoleg

**22.** Mae ein Penderfyniad ar gyflogau ychwanegol i ddeiliaid swyddi yn adlewyrchu gwaith ymchwil ac ymgynghori manwl, a oedd yn cynnwys casglu tystiolaeth a dadansoddiad manwl o rolau a chyfrifoldebau'r swyddi o dan sylw. Cafodd y gwaith o gasglu tystiolaeth ei wneud drwy arolygon, tystiolaeth ysgrifenedig a chyfarfodydd ffurfiol gyda'r Aelodau.

**23.** Cynhaliodd Aelodau o'r Bwrdd, sydd ag arbenigedd proffesiynol penodol mewn materion taliadau, waith ymchwil manwl i lywio ein canfyddiadau. Defnyddiwyd, hefyd, waith a gynhaliodd Comisiwn y Cynulliad eisoes, y ddau banel annibynnol ynghylch cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad, a chyrff taliadau eraill.

## Costau

**24.** Yn ystod ail gam ein gwaith, cynhaliwyd dau gyfarfod ffurfiol, ac yn ystod y cyfarfodydd hyn, daeth tystiolaeth i law, datblygwyd a thrafodwyd ein cynigion, a gwnaed penderfyniadau a oedd yn gyfystyr a'r fersiwn diweddaraf o'n Penderfyniad a'n hail adroddiad. Fel rhan o'r broses hon, gwnaeth aelodau'r Bwrdd 25.5 diwrnod person yn ychwanegol o waith ymchwil arbenigol, paratoi ac ymgynghori ag Aelodau ac arweinwyr y pleidiau a chasglu tystiolaeth i lywio'r gwaith hwn.

# Trefniadau Pensiwn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad

*Mae'r bennod hon yn amlinellu ein gwaith ar hyn o bryd ar bensiynau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.*

## Trefniadau Pensiwn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad

**25.** Ym mis Mawrth 2011, cytunwyd i ohirio trafod trefniadau pensiwn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad nes ein bod wedi cael prisiad actiwaraidd 2011 o Gynllun Pensiwn yr Aelodau, ac wedi cael amser i ystyried goblygiadau adroddiad mis Mawrth 2011 yr Arglwydd Hutton ynghylch pensiynau'r sector cyhoeddus yn fanwl, ynghyd â'r ddadl gyhoeddus ar gasgliadau'r adroddiad hwn.

**26.** Rydym wedi dechrau ein hystyriaethau yn y maes hwn, er nad ydym wedi dod i unrhyw gasgliadau o ran trefniadau pensiwn i'r dyfodol ar gyfer yr Aelodau. Fodd bynnag, rydym wedi ysgrifennu at holl Aelodau presennol y Cynulliad i amlinellu'r amcanion a ganlyn:

- rhoi trefniadau pensiwn ar waith, sy'n deg, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy yn y tymor hir;
- diogelu hawliau pensiwn a gronnwyd hyd at ddyddiad gweithredu'r trefniadau newydd; a
- sicrhau buddion ymddeol priodol ar gyfer yr Aelodau.

**27.** Drwy gydol yr adeg y byddwn yn ystyried pensiynau'r Aelodau, byddwn yn cadw mewn cysylltiad agos ag Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn presennol, sy'n gyfrifol am reoli'r gronfa bensiwn ar ran aelodau'r Cynllun. Byddwn yn parhau i ymgynghori ag arweinwyr y pleidiau a'r grwpiau, ac yn sicrhau ein bod ar gael i unrhyw Aelod, neu unrhyw aelod o'r Cynullun, sydd am siarad â ni.

**28.** Byddwn yn nodi datblygiadau mewn polisi pensiynau yn y DU ac yn ystyried newidiadau i bensiynau'r sector cyhoeddus yn dilyn cyhoeddi adroddiad Hutton ac, yng nhgyd-destun Cymru, y trefniadau pensiwn sydd ar gael i bobl yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw ddatblygiadau sy'n ymwneud â phensiynau Aelodau Seneddol yn San Steffan, Aelodau o Senedd yr Alban ac Aelodau o Gynulliad Gogledd Iwerddon.

**29.** Rydym wedi ymrwymo i ystyried pensiynau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad o fewn cyd-destun taliadau llawn.

**30.** Yr amserlen i ni ystyried trefniadau cyflog a phensiwn Aelodau'r Cynulliad yw:

- Tachwedd 2011 – Chwefror 2014: Adolygiad trylwyr o bensiynau, gan gynnwys ymgynghori â'r Aelodau a phobl eraill sydd â diddordeb;
- Mawrth 2014: Penderfyniad ynghylch pensiynau'r Aelodau;
- Mawrth 2014 – Chwefror 2015: ystyried cyflog a lwfansau ar gyfer pumed flwyddyn y Pedwerydd Cynulliad, sef y flwyddyn olaf. Adolygiad o faterion taliadau llawn ar gyfer y Pumed Cynulliad. Cytuno ar y cynigion ynghylch pensiynau, gan gynnwys dyddiad unrhyw newidiadau;
- Mawrth 2015: Penderfyniad ynghylch cyflog a lwfansau ar gyfer pumed flwyddyn y Pedwerydd Cynulliad; a
- Tachwedd 2015: Penderfyniad ynghylch y pecyn taliadau llawn ar gyfer y Pumed Cynulliad.

## Costau

**31.** Rydym wedi trafod trefniadau pensiwn yr Aelodau mewn nifer o gyfarfodydd y Bwrdd yn ystod 2011-12, ac rydym wedi cwrdd â chynrychiolwyr byrddau taliadau eraill. Er mwyn i ni allu deall y Cynllun Pensiwn presennol ar gyfer yr Aelodau, gwnaed cais am wybodaeth gan actiwari'r cynllun yn ogystal ag Adran Actiwari'r Llywodraeth, a gwahoddwyd yr actwari i un o'n cyfarfodydd i roi gwybodaeth am brisiad actiwaraidd 2011 y Cynllun. Costau'r gwaith a gynhaliwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth oedd £4,712.50. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddiad actiwaraidd manwl a bod yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd 2011.

**32.** Oherwydd cymhlethdod y mater pensiynau, mae'n debygol y bydd angen cyngor proffesiynol pellach arnom wrth wneud penderfyniad, a hynny er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn ac yn addas i'r diben.

# Adolygu ein Penderfyniadau

*Mae'r bennod hon yn esbonio'r penderfyniadau a'r newidiadau rydym wedi'u gwneud i'n Penderfyniad yn ystod y flwyddyn, yn dilyn adborth a thystiolaeth gan Aelodau'r Cynulliad.*

## Adolygu ein Penderfyniadau

**33.** Mae'n ofynnol i ni barhau i adolygu ein Penderfyniad fel ei fod yn parhau i sicrhau bod gan Aelodau'r Cynulliad yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i arfer eu dyletswyddau fel Aelodau'r Cynulliad.

**34.** Er mwyn gallu gwneud hyn, rydym wedi gwahodd adborth a thystiolaeth gan yr Aelodau, sydd wedi ein galluogi i asesu effeithiolrwydd ein penderfyniad a chanfod unrhyw feysydd y mae'n bosibl y bydd angen eu hadolygu.

**35.** Rydym wedi adolygu ein penderfyniadau mewn nifer o feysydd, a chânt eu rhestru isod.

## Diffiniad o Fusnes y Cynulliad a Chostau Teithio Ad-daladwy

**36.** Mae paragraff 5.1.2 o'n *Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau* yn nodi'r meini prawf sy'n berthnasol i'r Aelodau hawlio costau teithio:

– ei bod yn siwrnai am reswm sydd wedi'i ddatgan gan y Cynulliad;

– ei bod yn gysylltiedig â mater sydd ar hyn o bryd gerbron y Cynulliad neu un o'i bwyllgorau y mae'r Aelod yn gwasanaethu arno; neu

– ei bod yn berthnasol i etholwr ir Aelod neu ei bod yn berthnasol yn gyffredinol i etholaeth neu ranbarth yr Aelod.

### Penderfyniad

**37.** Ystyriwyd a oedd y diffiniadau hyn yn ddigon eglur o ran yr amgylchiadau y gall Aelodau hawlio costau teithio. **Er mai ein barn oedd bod angen i Aelodau arfer synnwyr cyffredin wrth asesu perthnasedd y gweithgaredd y maent am hawlio treuliau ar ei gyfer, ein barn oedd bod y prawf, fel y caiff ei ragnodi o dan y geiriad presennol, yn gweithio'n foddhaol yn y rhan fwyaf o achosion.**

## Trefniadau Llety

**38.** Er mwyn i'r Cynulliad allu gweithredu'n effeithiol, rydym yn cydnabod bod angen i'r Aelodau gael prif gartref yn eu hetholaeth neu ranbarth, neu'n agos iawn ati, ac y bydd angen iddynt gymryd rhan ym musnes y Cynulliad yng Nghaerdydd. Felly mae hawl gan yr Aelodau i gael eu had-dalu am gostau angenrheidiol sy'n gysylltiedig ag aros dros nos i ffwrdd o'u prif gartrefi, lle bo hyn yn gysylltiedig â'u dyletswyddau fel Aelodau.

**39.** Bwriad y lwfans llety preswyl yw galluogi Aelodau i gael llety dros nos lle bo angen hynny er mwyn eu galluogi i gyflawni eu swyddogaethau.

**40.** Mae'r diffiniad presennol o ardaloedd Mewnol ac Allanol (gweler isod), y mae lwfansau llety yn seiliedig arnynt, yn adlewyrchu un o argymhellion *Yn Gywir i Gymru*, sef adroddiad y Panel Adolygu Annibynnol. O dan adran 15 o'r Mesur roedd yn rhaid i'r Bwrdd, y tro cyntaf yr oedd yn gwneud Penderfyniad mewn perthynas â'r mater hwn, roi sylw i'r argymhelliad hwn a datgan yn ysgrifenedig ei resymau dros wyro oddi wrtho. Drwy gydol cyfnod hir yr ymgynghoriad cyn gwneud ein Penderfyniad cyntaf ym mis Mawrth 2011, ni chawsom unrhyw dystiolaeth na chyflwyniadau a fyddai wedi bod yn sail i ni wyro oddi wrth argymhelliad y Panel.

## Lwfans Rhentu ar gyfer Aelodau y mae eu Prif Gartrefi yn yr Ardal Allanol

**41.** Caiff Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr ardal allanol (etholaethau o fewn a rhanbarthau Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru) hawlio hyd at £8,400 y flwyddyn (£700 y mis) tuag at y gost o rentu llety, o fewn pum milltir i'r Cynulliad. Diben y lwfans hwn yw galluogi'r Aelodau i gael ail lety yn agos at y Cynulliad fel y gallant gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol.

### Penderfyniad

**42.** Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi ystyried a yw £8,400 y flwyddyn yn ddigon at y diben hwn. Rydym wedi adolygu'r swm hon yn erbyn y farchnad rentu yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn ariannol ac ni ddaethom ar draws unrhyw dystiolaeth nad yw'r lwfans hwn yn ddigonol. **Nid ydym y bwriadu cynyddu'r lwfans hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012-13, na chyflwyno modd o godi hyn.**

**43.** **Bydd y Bwrdd yn parhau i adolygu'r uchafswm yn flynyddol, gan ystyried yr eiddo addas sydd ar gael, ac unrhyw newidiadau i'r farchnad rentu yn y dyfodol.**

## Aelodau y mae eu Prif Gartrefi yn yr Ardal Fewnol

**44.** Caiff yr Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr ardal fewnol (rhanbarthau ac etholaethau Dwyrain De Cymru, Canol De Cymru a Gorllewin De Cymru) hawlio treuliau aros dros nos yng Nghaerdydd hyd at 20 noson y flwyddyn.

**45.** Yn ystod blwyddyn gyntaf y Pedwerydd Cynulliad, cawsom sylwadau gan rai Aelodau Cynulliad nad oedd y trefniadau hyn yn ddigonol, yn arbennig ar gyfer rhai Aelodau a oedd yn byw yn

etholaethau Gŵyr, Gorllewin Abertawe, Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd, lle roedd yn cymryd dros awr iddynt deithio i'r Cynulliad.

**46.** Wrth ystyried y mater, dadansoddwyd gwybodaeth fanwl am nifer yr Aelodau o'r Ardal Fewnol (Dwyrain De Cymru, Canol De Cymru a Gorllewin De Cymru) a oedd yn manteisio ar lety dros nos, ac yn ôl Aelodau unigol o fewn pob rhanbarth. Roedd hyn yn dangos mai ychydig iawn o Aelodau sydd â'u prif gartrefi yng Nghanol De Cymru a Dwyrain De Cymru, sy'n manteisio ar hyn.

**47.** Mae'r sefyllfa yn fwy cymhleth ar draws rhanbarth Gorllewin De Cymru, yn arbennig oherwydd yr amser teithio hwy i Gŵyr, Gorllewin Abertawe, Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd. Er nad yw pob Aelod y mae eu prif gartrefi yn yr etholaethau hyn wedi gwneud defnydd sylweddol, neu unrhyw ddefnydd o gwbl, o'r lwfans, mae llawer o Aelodau eraill y mae eu prif gartrefi yn yr etholaethau hyn, wedi aros dros nos rhwng 15 a 20 gwaith. I'r Aelodau hynny y mae eu prif gartrefi yn etholaethau eraill Gorllewin De Cymru, mae'r defnydd o'u lwfans dros nos yn llawer is.

## Penderfyniad

**48.** Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod cymhwyso'r cyfyngiad o 20 noson i bawb o fewn yr Ardal Fewnol, fel sydd wedi'i ddiffinio ar sail ffiniau rhanbarthol, wedi arwain at rai anghysonderau. Wrth ddod i'r casgliad hwnnw, ystyriwyd faint o Aelodau sydd wedi defnyddio'r lwfans yn ystod blwyddyn gyntaf y Pedwerydd Cynulliad, ac mae nifer o ffactorau wedi peri trafferth i rai Aelodau unigol, gan gynnwys cylch busnes y Cynulliad, a'r cynnydd yn y gwaith hwnnw, yn ogystal â thystiolaeth o bellteroedd ac amser teithio ar draws yr ardal fewnol.

**49.** Rydym wedi ceisio dileu'r anghysonderau hyn gyda nifer o newidiadau. Credwn y bydd y newidiadau hyn yn fwy addas i anghenion busnes yr Aelodau. Ymgynghorwyd ar y newidiadau arfaethedig a ganlyn:

- dynodi etholaethau Gŵyr, Gorllewin Abertawe, Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd yn 'Ardal yn y Canol', a chynyddu nifer y arosiadau dros nos ar gyfer yr Aelodau hynny y mae eu prif gartrefi yn yr Ardal honno. **Mae'r uchafswm newydd yn seiliedig ar yr hyn sy'n cyfateb i aros dros nos 36 o weithiau mewn blwyddyn, er mwyn sicrhau y gellid aros dros nos o leiaf un noson yn ystod yr wythnos pan mae'r Cynulliad yn eistedd;**

- gostyngiad i'r **hyn sy'n cyfateb i aros dros nos 15 gwaith yng Nghaerdydd, ar gyfer yr Aelodau hynny y mae eu prif gartrefi mewn unrhyw etholaeth arall yn yr Ardal Fewnol;**

- yn unol â strwythur cyffredinol lwfansau llety preswyl eraill, **bydd uchafswm yr hyn a gaiff pob Aelod yn yr Ardal Fewnol aros dros nos yng Nghaerdydd ei fynegi fel cyllideb flynyddol yn hytrach na nifer benodedig o nosweithiau y ceir aros dros nos.** Bydd hyn ar gael i'r Aelodau ei ddefnyddio yn y ffordd sydd fwyaf addas i'w hanghenion hwy, ar unrhyw fath o lety, hyd at uchafswm o £95 y noson wrth aros dros nos mewn gwesty (neu £25 y noson wrth aros gyda chyfaill neu berthynas). Felly gallai'r Aelod, os yw'n aros mewn llety rhatach, adennill costau

mwy na'r isafswm o 38 noson (neu 15, fel sy'n berthnasol), ar yr amod bod tystiolaeth ysgrifenedig o'r gwariant yn cael ei chyflwyno; a

- **swm y gyllideb flynyddol ar gyfer yr Aelodau y mae eu prif gartrefi yn etholaethau Gŵyr, Gorllewin Abertawe, Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd (yr Ardal yn y Canol) fydd £3,420. I Aelodau y mae eu prif gartrefi mewn etholaethau eraill yn yr ardal fewnol, y swm fydd £1,425**. Bydd costau llety mewn gwesty yn parhau i gael ei ad-dalu ar sail tystiolaeth o'r gwariant gwirioneddol a dalwyd oherwydd busnes y Cynulliad. Bydd y lwfans o £20 y noson am gost pryd nos wrth aros mewn gwesty yn parhau i fod yn ychwanegol at y gyllideb hon. Bydd canlyniadau ariannol y penderfyniad hwn yn parhau'n isel o'i gymharu â'r trefniadau blaenorol;

**50.** **Bydd y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad yn gallu cymeradwyo ad-dalu costau aros dros nos ychwanegol lle mae'n amhosibl teithio rhwng Caerdydd a phrif gartref Aelod Cynulliad oherwydd amgylchiadau eithriadol fel tywydd garw eithriadol neu ddigwyddiadau mawr eraill**.

**51.** Yn dilyn ymgynghoriad â'r Aelodau, cytunwyd ar y cynigion a amlinellir uchod yn ein cyfarfod ar 22 Mehefin 2012**.** Er bod y penderfyniad wedi cael ei wneud y tu allan i'r cyfnod adrodd ar gyfer yr adroddiad blynyddol hwn, cafodd ein hadolygiad o'r rhan hon o'r Penderfyniad ei chwblhau'n bennaf yn ystod blwyddyn ariannol 2011-12.

**52.** **Byddwn yn cynnal adolygiad mwy trylwyr o'r trefniadau hyn cyn dechrau'r Pumed Cynulliad.**

## Cymorth i'r bobl hynny sy'n Gofalu

**53.** Nid yw'r Penderfyniad presennol yn cynnig unrhyw lwfansau ychwanegol ar gyfer Aelodau Cynulliad sydd â chyfrifoldebau gofal. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi clywed am bryderon nifer fach o Aelodau'r Cynulliad ynghylch y diffyg cymorth penodol i Aelodau sydd â chyfrifoldebau felly. Wrth ystyried a ddylid gwneud trefniadau penodol, comisiynwyd gwaith ymchwil i'r cymorth sydd ar gael mewn deddfwrfeydd cymharol. Nodwyd y caiff Aelodau Seneddol yn San Steffan, sydd â chyfrifoldebau gofalu am blant, hawlio lwfans cymorth llety ychwanegol i hwyluso rhentu eiddo mwy, neu er mwyn ymdopi â biliau cyfleustodau uwch.

### Penderfyniad

**54.** Ein barn oedd y byddai angen ystyried nifer o agweddau ar y Penderfyniad er mwyn cynorthwyo Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu, ac y gallai'r cyfrifoldebau hynny ymestyn y tu hwnt i ofalu am blant. Yn wir, efallai nad yw'r mater hwn yn ymdrin yn syml â darparu lwfans neu adnoddau ychwanegol, ac efallai mai'r ffordd orau o ymdrin â hyn fyddai drwy fod yn hyblyg wrth gymhwyso darpariaethau penodol o fewn ein Penderfyniad.

**55.** **Cytunwyd i ystyried y mater hwn yn llawn yn ein Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad. Yn y cyfamser, byddwn yn ystyried rhinweddau unrhyw achos penodol a allai godi yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Rydym yn gwerthfawrogi y gallai hyn, o dro i dro, gynnwys materion personol a chyfrinachol. Mewn achosion felly, caiff y rhain eu hystyried yn breifat gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad cyn gwneud argymhelliad i'r Bwrdd.**

## Lwfans Costau Swyddfa

**56.** Caiff Aelodau sy'n rhedeg swyddfa yn eu hetholaethau neu ranbarthau hawlio costau perthnasol sy'n gysylltiedig â rhedeg y swyddfa honno, o hyd at £16,242 y flwyddyn.

### Penderfyniad

**57.** Ystyriwyd lefel y lwfans costau swyddfa ar gyfer 2012-13, a thrafodwyd a ddylid cyflwyno dull o godi hwn yn awtomatig o fewn y Penderfyniad. Heb unrhyw dystiolaeth nad oedd y lefel bresennol yn ddigonol, **cytunwyd y byddai'r lwfans yn parhau ar lefel 2011-12 ar gyfer 2012-13, ac y byddai'n cael ei adolygu'n flynyddol wedi hyn.**

# Rhaglen Waith 2012-13

*Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn ystyried a yw'r lwfans staffio presennol yn ddigonol ac a yw'n rhoi digon o gymorth i Aelodau'r Cynulliad. Byddwn hefyd yn parhau i ystyried y trefniadau pensiwn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.*

## Trefniadau Staffio Aelodau'r Cynulliad

**58.** Nod y system cymorth ariannol a roddwyd ar waith gan ein Penderfyniad cyntaf yw sicrhau bod gan yr Aelodau yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i wneud eu gwaith yn effeithiol. Mae hyn yn unol â diben strategol y Cynulliad o ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, deddfu a chynrychioli etholwyr. Mae trefniadau staffio ar gyfer yr Aelodau yn rhan bwysig iawn o'r cymorth hwn.

**59.** Yn ystod cam cyntaf ein gwaith, adolygwyd y trefniadau cyflog ar gyfer staff cymorth yr Aelodau. Ar y pryd, cytunwyd i godi pwyntiau cyflog o fis Ebrill 2011 yn unol â'r 2.3 y cant o newid yn y Mynegai Cyfartalog Enillion (fel ym mis Rhagfyr 2010), a chodiad pellach o £550 o 6 Mai 2011, sy'n cynrychioli cyfuno taliadau bonws â chyflog.

**60.** Gyda'i gilydd, mae'r ddwy elfen hyn wedi golygu codiad o rhwng pedwar a chwech y cant, yn dibynnu ar raddfa gyflog a cholofn gyflog. Cafodd graddfeydd cyflog eu rhewi ar y lefelau hyn tan fis Ebrill 2013, er bod staff cymorth yr Aelodau yn parhau i gael eu codiad cyflog cynyddrannol lle nad ydynt wedi cyrraedd pen eu graddfa gyflog yn barod.

**61.** Yn ogystal â phenderfynu ar drefniadau cyflog i'r staff cymorth, rydym hefyd wedi rhoi'r trefniadau a ganlyn ar waith:

- yn unol â phwerau deddfwriaethol dyrchafedig y Cynulliad Cenedlaethol, ei bod yn ofynnol i o leiaf un aelod o staff amser llawn a gaiff ei gyflogi gan bob Aelod fod yn canolbwyntio ar waith ymchwil a chynorthwyo ym musnes ffurfiol y Cynulliad;
- hyblygrwydd i drosglwyddo cyllidebau staffio i grwpiau pleidiau;
- y gallu i'r Aelodau strwythuro cymorth staffio mewn ffyrdd sy'n addas i'w hanghenion unigol, er enghraifft drwy benodi mwy nag un aelod o staff ar fand cyflog;
- amodau a thelerau safonol i staff cymorth; a
- y rheidrwydd iddynt gael eu recriwtio drwy broses agored a thryloyw.

**62.** Bydd y trefniadau hyn, gan gynnwys cyflog, yn destun adolygiad, a chaiff ein gwaith yn y maes hwn ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2013. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys gwerthusiad mwy cynhwysfawr o ddisgrifiadau swyddi a chyfrifoldebau staff cymorth, fel y gallwn feithrin

dealltwriaeth gliriach o swyddogaethau ac anghenion yr Aelodau, a phriodoldeb bandiau cyflog a cholofn gyflog.

**63.** Dylai taliadau staff cymorth yr Aelodau adlewyrchu gwerth y gwaith y maent yn ei wneud, a dylai hyn fod yn unol â chymariaethau addas eraill ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat yng Nghymru, er y bydd y cyd-destun gwleidyddol ac economaidd ehangach yn cael ei ystyried. Rydym yn cydnabod bod cyflogau staff cymorth yn chwarae rhan arwyddocaol o ran galluogi Aelodau i ddenu math addas o ymgeisydd i swyddi gwag er mwyn gallu sicrhau ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ar eu cyfer, a thrwy hynny wella capasiti strategol y Cynulliad.

**64.** Yn ogystal â sicrhau bod y rhai y mae ein penderfyniadau yn effeithio arnynt yn cael eu hysbysu'n llawn, ac yn cael cyfle i gyfrannu at y broses, byddwn yn ymgysylltu â chynrychiolwyr staff cymorth yr Aelodau ac yn ymgynghori, fel y bo'n briodol, â Chomisiynydd priodol y Cynulliad.

## Rhaglen Waith 2013-16

**65.** Yn y ddogfen *Addas i'r Diben* disgrifiwyd y Pedwerydd Cynulliad fel un trosiannol - cyfnod pan fydd y Cynulliad, yn dilyn refferendwm mis Mawrth 2011, yn datblygu i fod yn gorff deddfu llawn.

**66.** Mae'r system o roi cymorth ariannol a nodwyd yn ein Penderfyniad am gyfnod o bedair blynedd o gychwyn y Pedwerydd Cynulliad. Fel y nodwyd yn ein hadroddiadau blaenorol, mae'r Ddeddf *Seneddol ynghylch Seneddau Cyfnod Penodol 2011* a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Medi 2011 wedi arwain at ymestyn tymor y Pedwerydd Cynulliad i bum mlynedd.[2] Yn 2013-14 byddwn, felly, yn adolygu'r penderfyniadau a wnaethom ynghylch lefelau cyflog Aelodau er mwyn asesu a yw'r system o roi cymorth ariannol yn briodol ar gyfer blwyddyn olaf y Pedwerydd Cynulliad.

**67.** Cyn etholiad nesaf y Cynulliad yn 2016 byddwn yn penderfynu ar gyfanswm y pecyn taliadau a'r system o roi cymorth ariannol sy'n briodol ar gyfer Aelodau'r Pumed Cynulliad. Mae hyn yn debygol o olygu asesu pwysau'r swydd a chyfrifoldebau'r Aelodau, y Gweinidogion a deiliaid swyddi eraill yn wyneb datblygiad y Pedwerydd Cynulliad.

[2] *T13, Taliadau Deiliaid Swyddi*

# Cylch Gwaith ac Aelodaeth y Bwrdd Taliadau

Sefydlwyd y Bwrdd Taliadau gan *Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010*.

Mae'r Bwrdd yn gorff statudol annibynnol sy'n gyfrifol am y canlynol:

- darparu lefel taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad sy'n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni ac nad yw, ar sail ariannol, yn atal personau y mae ganddynt yr ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad;
- darparu adnoddau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad sy'n ddigonol i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau fel Aelodau; a
- sicrhau priodolder, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwariant cyllid cyhoeddus.

Wrth ymgymryd â'i gylch gwaith, mae'n rhaid i'r Bwrdd weithredu'n agored ac yn dryloyw a, lle teimla'r Bwrdd fod hynny'n briodol, ymgynghori â'r personau y mae'n debyg y bydd ei benderfyniadau yn effeithio arnynt.

Penodwyd y Bwrdd ar sail proses recriwtio agored a theg ac mae'n cynnwys Cadeirydd a 4 aelod Bwrdd.



**Y Gwir Anrhydeddus Syr George Reid**
(Cadeirydd)
Gwleidydd, newyddiadurwr ac academydd o'r Alban. Cafodd ei wneud yn Farchog yn 2012. Aelod o'r Cyfrin Gyngor, cyn AS, cyn-Aelod o Senedd yr Alban, Llywydd Senedd yr Alban a Chadeirydd ei Chorff Corfforaethol. Arglwydd Raglaw Swydd Clackmannan. Bu'n gweithio am 15 mlynedd mewn rhyfeloedd a thrychinebau fel cyfarwyddwr y Groes Goch Ryngwladol/Cilgant Coch. Mae ei benodiadau presennol yn cynnwys: Comisiynydd Etholiadol y DU, athro gwadd ym Mhrifysgolion Glasgow a Stirling. Yn ddiweddar, arweiniodd adolygiadau strategol ar lywodraethu yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Alban.



**Sandy Blair CBE**

Cyn gyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, CLlLC (ymddeolodd yn 2004). Bu'n brif weithredwr awdurdod lleol am 16 mlynedd cyn cael ei benodi i CLlLC, ac yn Llywydd SOLACE yn 1999-2000. Mae wedi cael ei gyflogi mewn nifer o swyddi cyhoeddus ac wedi bod yn ymddiriedolwr cyrff cyhoeddus fel cyfarwyddwr anweithredol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cadeirydd Bwrdd Cyllid Esgobaeth Mynwy a swyddi o fewn yr Eglwys yng Nghymru. Mae wedi bod yn aelod o Bwyllgorau Taliadau UWIC a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.



**Mary Carter**

Ymddeolodd fel Partner yn KPMG ym mis Medi 2008 ac ar hyn o bryd mae'n aelod o Gorff Adolygu Cyflogau'r Lluoedd Arfog sy'n gwneud argymhellion i'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn ar gyflogau milwrol, lwfansau a thaliadau digolledu, yn ogystal ag ymgynghorydd rhan amser i KPMG. Mae'n gyfreithiwr ac wedi arbenigo ers dros 20 mlynedd ar gynghori cwmnïau yn y DU a thu hwnt ar daliadau a chymhellion i gyfarwyddwyr/uwch reolwyr a materion trethiant a llywodraethu cysylltiedig.



**Stuart Castledine**

Cyfrifydd siartredig sydd wedi dal nifer o swyddi rheoli ariannol a chyffredinol gydag Allied Dunbar, Chartered Trust a Chymdeithas Adeiladu Bristol & West cyn dod yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol cyntaf Tesco. Yn fwy diweddar, mae wedi ymgymryd â nifer o aseiniadau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan helpu i sefydlu cynghreiriau a mentrau ar y cyd, yn ogystal â bod yn gyfarwyddwr sy'n gwyrdroi nifer o sefydliadau gwasanaethau ariannol sy'n methu. Ar hyn o bryd mae'n gyfarwyddwr anweithredol Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.



**Yr Athro Monojit Chatterji**

Ac yntau'n academydd sydd â phrofiad ym maes polisi cyhoeddus, mae wedi cyhoeddi gwaith ymchwil mewn meysydd fel y ffactorau sy'n pennu cyflogau'r sector cyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae'n Athro Bonar mewn Economeg Gymhwysol ym Mhrifysgol Dundee ac yn Gyd-gymrawd a Chyfarwyddwr Astudiaethau Economeg yng Ngholeg Sidney Sussex, Caergrawnt. Ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd Cydgyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achosion Brys y DU (y corff negodi tâl). Cyn hynny bu'n aelod o gorff Adolygu Athrawon Ysgol sy'n gwneud argymhellion i'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau ar gyflogau ac amodau, a threfniadau llywodraethu hefyd ar gyfer athrawon ysgol a phenaethiaid ysgol yng Nghymru a Lloegr. Mae hefyd yn gyn aelod o'r Grŵp Economegwyr, Swyddfa Economeg y Gweithlu, yn ystyried materion trawsbleidiol yn ymwneud â thâl yn y sector cyhoeddus.

# Dadansoddiad o Gostau'r Bwrdd

Mae'r tabl isod yn dangos y costau uniongyrchol a oedd yn gysylltiedig â'r Bwrdd Taliadau yn 2011-12. Bu 6 cyfarfod ffurfiol yn ystod y cyfnod hwn.

### Ffioedd Aelodau'r Bwrdd

| | Y Gwir Anrhydeddus Syr George Reid (Cadeirydd) | Sandy Blair | Mary Carter | Stuart Castledine | Monojit Chatterji | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | **£** |
| Cyfradd ddyddiol | 243.00 | 185.00 | 185.00 | 185.00 | 185.00 | |
| Ffioedd | 6,358.50 | 1,905.50 | 3,182.05 | 4,162.50 | 2,775.00 | **18,383.55** |

### Treuliau Aelodau'r Bwrdd

| | Y Gwir Anrhydeddus Syr George Reid (Cadeirydd) | Sandy Blair | Mary Carter | Stuart Castledine | Monojit Chatterji | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Milltiroedd - Car | 68.30 | 131.40 | 183.60 | 148.15 | 212.00 | **743.45** |
| Tacsi / Llogi Car | 406.51 | - | - | - | 78.50 | **485.01** |
| Hedfan | 1,270.93 | - | - | - | 1,144.01 | **2,414.94** |
| Trafnidiaeth Gyhoeddus | 474.25 | - | 239.10 | - | 140.80 | **854.15** |
| Llety | 1,086.00 | - | 384.00 | 82.50 | 274.90 | **1,827.40** |
| Cynhaliaeth | 255.46 | - | 92.05 | 45.70 | 70.01 | **463.22** |
| Cyfanswm Teithio a Chynhaliaeth | 3,561.45 | 131.40 | 898.75 | 276.35 | 1,920.22 | **6,788.17** |

## Costau Ychwanegol Cyfarfodydd y Bwrdd

| | Y Gwir Anrhydeddus Syr George Reid (Cadeirydd) | Sandy Blair | Mary Carter | Stuart Castledine | Monojit Chatterji | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau Cyfarfod | - | - | - | - | - | **199.29** |
| Dadansoddiad Actwaraidd gan Actiwari'r Cynllun Pensiwn | - | - | - | - | - | **4,721.50** |
| | | | | | | **4,920.79** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **9,919.95** | **2,036.90** | **4,080.80** | **4,438.85** | **4,695.22** | **30,092.51** |